

BYWYD YN EI GYFLAWNDER

Sut mae byw'n dda gyda phobl eraill

Sut mae byw'n dda gyda'n daear

Sut mae byw'n dda gydag arian



Addasiad o adnodd
gan y Congregational
Federation

Pensaerniaeth Ariannol
ac Economaidd
Ryngwladol Newydd
(NIFEA)



**BYWYD
I BAWB**

Economi Bywyd a
Newid Hinsawdd



a partnership
of churches
in mission

CYFLWYNIAD



Ers mis Ionawr 2017 mae Undeb yr Annibynwyr, ar y cyd ag enwadau eraill o'r Deyrnas Unedig, wedi bod yn ymwneud â phrosiect gan Gyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM) o'r enw NIFEA (Pensaernïaeth Ariannol ac Economaidd Ryngwladol Newydd) i fyfyrrio ar heriau allweddol anghyfiawnder economaidd, cymdeithasol ac ecolegol, ac i helpu i fynd i'r afael â nhw.

Cynhaliwyd tri chyfarfod ar 'Economi Bywyd', sef bod yn rhan o'r mudiad byd-eang sy'n dathlu bywyd, a cheisio dod â threfn i'r byd, er mwyn i bawb fedru cael bywyd yn ei holl gyflawnder (Ioan 10:10).

Bu ffocws rhanbarthol i'r cyflwyniadau a'r drafodaeth ym mhob cyfarfod, ond yn y cefndir roedd realiti byd-eang newydd arlywyddiaeth Trump yn UDA a phenderfyniad Prydain i adael yr Undeb Ewropeaidd. Beth bynnag yw ein barn bersonol am hyn, mae'r math yma o bethau yn effeithio ar yr economi fyd-eang a gwleidyddiaeth y byd. Dyma rai o'r pynciau a fu'n derbyn sylw yn y cyfarfodydd, ac a gadarnhawyd yn Natganiad Kingston¹;

- **Arian, Bancio a Buddsoddiadau**
- **Eco-eglwys**
- **Moeseq**
- **Masnach Deg**
- **Tlodi**

¹Cytunwyd ar Ddatganiad Kingston gan gyfranogwyr prosiect NIFEA yn y cyfarfod cyntaf ac fe'i lluniwyd ar gyfer gweithredu oddi mewn i'r gwahanol enwadau a chynulleidfaoedd.



Mae'n siŵr fod pob cenedlaeth yn ymgeisio yn eu tro i wella a mireinio amodau byw i bobl ar y ddaear hon. Gwaetha'r modd, yn aml yn ein hanes diweddar ni, digwyddodd hynny ar draul bywyd y byd, ac yn ein hymdrechion i fyw bywyd da, buom mor esgeulus o fuddiannau pobl eraill heb sôn am iechyd a lles popeth byw sydd fel ninnau'n cael y greadigaeth odidog hon yn gartref iddynt.

Mae'r adnodd gwerthfawr hwn, Bywyd i Bawb, yn arwydd clir o'n dymuniad i newid meddwl a newid ein ffyrdd, i edifarhau trwy weithio at ymryddhau o afael y meddylfryd hunanol, trachwantus a balch wreiddiodd mor ddwfn yn ein plith. Gwaith pobl ffydd yw'r adnodd hwn, wedi ei seilio ar yr Ysgrythurau a'u tystiolaeth i waith a chariad Duw, ffynhonnell pob bywyd, a ddaeth yn lesu i roi 'bywyd yn ei holl gyflawnder' i bobl ac i'r greadigaeth gyfan.

Ac nid gwaith i ddiolch amdano ac yna'i anghofio, mo hwn chwaith. Y mae yma adnodd all newid y byd. Rwy'n erfyn arnoch i droi ato a'i ddefnyddio. Bydd yn siŵr o ddwysáu ein cariad at fywyd, bywyd pawb a phopeth o'n cwmpas, a chreu ynom ddiolchgarwch mwy fyth i Dduw am y rhodd o fywyd.

Cafodd y gwaith ei sbarduno gan raglen Economi Bywyd CWM, rhanbarth y Caribî ac Ewrop. Diolch i Mr Richard Morgan a Dr Fiona Gannon am dynnu'n sylw ati ac am arwain trafodaethau arni yn Adran Dinasyddiaeth Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gweithgor Economi Bywyd a Newid Hinsawdd. Fiona cadeirydd y gweithgor, piau'r clod am y gwaith hwn sy'n addasiad ardderchog o Abundant Life, a gynhyrchwyd gan ein cyfeillion o'r Gynghrair Gynulleidfaol, gyda diolch iddynt am gydweithrediad hael a pharod.

Rwy'n ffyddiog bod llaw'r Arglwydd ar y gwaith ac y cawn fendith drwyddo.

Dyfrig Rees

Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Lluniwyd y llyfryn hwn ar gyfer pawb. Mae modd ei ddefnyddio fel hyn:

- ar gyfer myfyrdod personol dyddiol
- yn ddeunydd astudiaethau Beiblaidd ar gyfer grwpiau
- i sbarduno pregeth
- yn ddeunydd ar gyfer Grŵp Ieuenctid
- i'w ddsbarthu i ymwelwyr â'r eglwys



1 SUT MAE BYW'N DDA GYDA PHOBL ERAILL

Mae angen cymdogion da ar bawb! Ydyn ni'n gymdogion da?

'Gall ein cariad at ein gilydd, a'r boen a achosir pan welwn ein cymydog mewn poen, ein cymell i ddefnyddio adnoddau'r oes bresennol.' ²

Gweithgaredd ymgynnull

Pwy yw eich cymydog? Gallech chi drafod hyn ar ôl y gwasanaeth Sul nesa, i weld beth yw eich barn chi ac eraill. Efallai mai rhywun sy'n byw gerllaw, rydych chi'n cymdeithasu â nhw, neu rywun rydych chi'n dibynnu arnyn nhw am eich anghenion beunyddiol – merch ar fferm yn Ethiopia sy'n helpu i gynaeafu eich coffi, er enghraifft, neu rywun rydych chi'n eu gweld ar y newyddion ac yn teimlo cydymdeimlad tuag atynt?

Darllen y Gair

Mathew 22:34–40

Ar ôl clywed fod Iesu wedi rhoi taw ar y Sadwceaid, daeth y Phariseaid at ei gilydd. Dyma un ohonyn nhw, oedd yn arbenigwr yn y Gyfraith, yn gofyn cwestiwn i geisio ei faglu: "Athro, Pa un o'r gorchmynion yn y Gyfraith ydy'r pwysica?" Atebodd Iesu: " 'Rwyt i garu'r Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid a'th holl feddwl.' Dyma'r gorchmyn cyntaf a'r pwysica. Ond mae yna ail un sydd yr un fath: 'Rwyt i garu dy gymydog fel rwyt ti'n dy garu dy hun.' Mae'r cwbl sydd yn y Gyfraith a'r Proffwydi yn dibynnu ar y ddau orchmyn yma." (beibl.net)

² Dyfyniad o Ddatganiad Kingston Ionawr 2017



Munud i feddwl ...

On'd yw bywyd yn ddryslyd weithiau? Mae cynifer o wahanol bethau'n cystadlu am ein hamser, a phob math o wahanol ddewisiadau. Mae'r diwylliant rydyn ni'n byw ynddo yn canolbwyntio gymaint ar 'Rydw i eisiau ...!' ac mae hynny'n golygu ein bod ni'n cael trafferth gweld y darlun mawr wrth ystyried beth sydd orau i'w wneud yn y byd. Felly beth allwn ni wneud?

Yr enw ar y gorchymynion yma gawson ni gan Iesu yw'r rhai PWYSICAF – hynny yw, y rhai mwyaf arwyddocaol, pwerus a dylanwadol. Y PWYSICAF! Mae hynny'n dipyn o ddweud, ond dyna wirionedd y sefyllfa, ac mae'n gallu newid y byd!

Sut gallwn ni garu ein cymydog fel ein hunan? Sut rydw i'n disgwyl i'm teulu wybod beth yw cariad a'i deimlo? Pa fath o hawliau rydw i'n disgwyl i'r plant sy'n rhan o'm teulu i brofi, wrth iddyn nhw dyfu i fyny yn y byd mawr? Pa fath o hawliau a gofal cariadus rydych chi'n disgwyl i'r plant a'r bobl ifanc yn eich eglwys a'ch cymuned eu profi? Buaswn i'n tybio mai un o'r pethau yn agos at frig y rhestr o bethau sy'n dangos cariad at y bobl rydych chi'n eu nabod yw mynediad at addysg a gofal iechyd. Weithiau, gallwn ni gymryd hynny'n ganiataol yng ngwledydd Prydain a'r byd datblygedig. Ond dyw llawer ddim yn gweld hynny fel hawl na gweithred garedig. Mae llawer ar draws y byd, yn arbennig merched sy'n byw mewn gwledydd sy'n datblygu, yn wynebu diffyg difrifol o ran mynediad at addysg a gofal iechyd. Mae Undeb yr Annibynwyr wedi gweithio mewn partneriaeth â Chymorth Cristnogol ers blynyddoedd lawer i gefnogi pobl yn rhai o wledydd tlotaf y byd, ac rydyn ni wedi dysgu nad yw'r ffaith bod rhywun yn byw mewn gwlad arall yn golygu nad ydyn nhw'n gymdogion i ni. Rhaid gofalu am eraill p'un a ydyn nhw'n byw drws nesa neu ochr arall y byd.

Mae Iesu'n rhoi gorchymyn yn y fan hon – i'n hysgogi i wneud rhywbeth. Tybed ... beth wnawn ni nesa?

Gweddi³

Dduw'r Creawdwr, trwy dy gariad daeth y byd yn fyw. Maddau i ni pan fydd ein breuddwydion ar gyfer y dyfodol yn dod o dan ddylanwad unrhyw beth heblaw cipolwg ar deyrnas lle ceir cyfiawnder, heddwch a dileu tlodi.

Dduw'r Ymgnawdoliad, dysgaist ni i godi llais dros yr hyn sy'n iawn. Paid â gadael i ni fodloni ar ddim llai na byd sydd wedi'i drawsffurfio trwy gariad, lle na chaiff tlodi fodoli bellach.

Anadl Duw, bydded i fywyd fodoli yn ei gyflawnder. Ysbrydola ni â gweledigaeth lle mae tlodi'n cael ei ddileu, a rho i ni'r ffydd, y dewrder a'r ewyllys i'w gwireddu.

Amen.

Cân

'Pan fo angen cymydog ...'

Cyfieithiad o emyn Sydney Carter (*Mwy o Glap a Chân*, Eddie Jones ac Ann Morgan)



³ <https://www.christianaid.org.uk/churches/prayer>

Gweithredu

Beth allech chi wneud? Mae cyfle yma i wneud rhywbeth syml, caredig, sy'n ysbrydoli ... Beth am neilltuo diwrnod yn yr wythnos i groesawu pobl sydd ddim fel arfer yn mynd i addoldy, a threulio amser yn dod i'w nabod nhw. Gallech chi gynnig paned a theisen falle, a gallai hynny fod yn fodd i estyn allan a dangos gofal yn y gymdogaeth ehangach, yn ogystal â chynnwys pobl a allai fod yn teimlo'n unig. Ydyn ni yno pan fydd angen cymydog ar rywun?

Rhannu

Efallai gallech chi rannu'r wybodaeth gawsoch chi fan hyn gyda'ch ffrindiau a'ch cymdogion. Gallwch chi hefyd rannu mewn gweddi gyda phobl yn eich eglwys chi ac annog arweinwyr yr addoliad i ddefnyddio adnoddau gweddi ac addoliad Cymorth Cristnogol.

Mae Cymorth Cristnogol yn ymroddedig i ysbrydoli ac annog eglwysi ac unigolion i gofleidio cymunedau tlawd â'u gweddïau: <https://www.christianaid.org.uk/churches/prayer>

Gweddi⁴

Arglwydd, mae tir sy'n llawn coffi a grawn,
da byw a chnydau,
porfa a gwastatir,
chwerthin a chariad
yn sychedu.

O Dduw, cysura dy bobl.

Diogela deuluoedd sy'n cael trafferth cadw dau ben llinyn ynghyd
diogela blant sy'n colli cyfle i gael addysg
diogela'r rhai sy'n teithio i chwilio am ddŵr.

O Dduw, cysura dy bobl.

Gweddiwn dros Gymorth Cristnogol a'u partneriaid,
mudiadau a sefydliadau sy'n cefnogi pobl mewn angen ar draws y byd.

Rho iddynt ddoethineb wrth asesu anghenion
a bendithia hwy wrth iddynt ymateb.

O Dduw, cysura dy bobl.

Amen.

Addasiad o waith Sara Iles

⁴ <https://www.christianaid.org.uk/churches/prayer>



2 SUT MAE BYW'N DDA GYDA PHOBL ERAILL

'Cyn i chi orffen eich brecwast yn y bore, rydych chi wedi dibynnu ar fwy na hanner y byd.'

Y Parchg Martin Luther King, 1967

'Rydym wedi clywed hanesion am frwydro, ac mae'r hanesion hynny wedi'n cyffwrdd. Mae brwydro yn meithrin gobaith. Mae'r ffaith bod hyn yn ddigon pwysig i beri i ni frwydro yn destun gobaith i ni. 'Gobaith yw rhodd Duw i bobl ddigalon sydd wedi'u curo, eu torri a'u siomi, ac mae'n rhoi i ni'r ewylllys i fynd ymlaen, a gallu dweud: "Gallwn, fe allwn ni" pan fydd popeth yn dweud "Na". Mae gobaith yn gyfranogol, ac mae cydsafiad yn deillio ohono. Yn Nuw y mae ein gobaith, ac mae wedi'i eni yn Nuw.'⁵

Gweithgaredd ymgynnull

Beth gawsoch chi i'w fwyta a'i yfed heddiw? Paned o de, efallai, neu ffrwythau a grawnfwyd? Neu edrychwch yng nghyprddau'r gegin i weld o ble mae'r holl sbeis, perlysiâu a thuniau'n dod.

Darllen y gair

Deuteronomium 28:12–14

'Bydd yr ARGLWYDD yn agor y nefoedd, ystordy ei ddaioni, i roi glaw i'th dir yn ei bryd, ac i fendithio holl waith dy ddwylo; byddi'n rhoi benthyg i lawer o genhedloedd, ond heb angen benthyca dy hun. Bydd yr ARGLWYDD yn dy wneud yn ben ac nid yn gynffon, yn uchaf bob amser ac nid yn isaf, dim ond iti wrando ar orchmynion yr ARGLWYDD dy Dduw, y rhai yr wyf yn eu rhoi iti heddiw i'w cadw a'u gwneud. Paid â gwyro i'r dde na'r chwith oddi wrth yr un o'r pethau yr wyf fi'n eu gorchymyn iti heddiw, na dilyn duwiau estron i'w haddoli.' (Beibl Cymraeg Newydd)

⁵Y Parchg Ddr Collin I. Cowan, Ysgrifennydd Cyffredinol CWM, o'i anerchiad i Golocwimw NIFEA, 'A Theological Perspective on Poverty Eradication', 26 Ionawr 2017 a dyfyniad o Ddatganiad Kingston Ionawr 2017



Munud i feddwl ...

Yn union fel mae Martin Luther King yn dweud, cyn i ni orffen ein brecwast, rydyn ni wedi dibynnu ar hanner y byd! Sut mae sicrhau ein bod ni'n cefnogi'r ffermwyr a'r cynhyrchwyr wrth ddefnyddio eitemau pob dydd? Un ffordd o wneud hynny yw Masnach Deg.

Mae'r adran o'r Beibl yn dweud wrthyn ni y bydd Duw yn ein bendithio â glaw ac y cawn fendith o'n llafur os ydyn ni'n gyfiawn; y byddwn ni'n gallu cynnig lletygarwch a rhoddion i lawer o genhedloedd, ond heb fenthycia oddi wrth neb. Petaen ni'n gweithredu'r hyn mae'r Beibl yn ei ddweud, byddai'r byd yn berffaith – mae'r adran hon yn cynnwys cyfuniad o gyfarwyddyd ac arweiniad.

Efallai ei fod yn gymharol hawdd gweld sut gallwn ni wneud y rhan gyntaf o hyn – trwy gadw gorchmynion Duw am ein gwaith ein hun, gallwn ni aros ar y llwybr cywir – ond rydyn ni'n dibynnu ar gynnyrch a llafur gweddill y byd. Os nad yw ein hymddygiad at y cynhyrchwyr a'r ffermwyr hynny'n rasol ac yn garedig, rydyn ni'n cymryd oddi wrthyn nhw ac yn elwa o'u llafur, heb dalu'n ôl yn deg. Neu mewn geiriau eraill, rydyn ni'n benthycio oddi wrthyn nhw mewn ffordd sy'n ecsbloetio, heb roi pris teg. Mae tegwch yn golygu peidio â chymryd mwy nag y mae arnoch ei angen.

Sut gallwn ni wneud hyn heb wybod pwy sy'n tyfu ac yn cynaeafu'r bwyd a'r diodydd rydyn ni'n dibynnu arny'n nhw bob dydd? Masnach Deg yw un ffordd o sicrhau ein bod ni, y defnyddwyr, yn gweithredu mewn modd teg, caredig a chyfiawn.



Gweddi⁶

Dduw Cariadus, wrth i mi fynd i'r farchnad,
gwthio'r troli trwy'r archfarchnad,
pori trwy gatalog, neu fewngofnodi i'r rhyngwyd:
bydd gyda mi a'm helpu.
Pan fydda i'n gwario arian
bydd gyda mi a'm helpu
i weld y farchnad trwy dy lygaid di,
mor eang â'r byd rwyt ti'n ei garu gymaint.
Bydd gyda ni a'n helpu
i rannu'n marchnadoedd cyffredin
er lles pawb.
Wrth i ni fyw dan dy lygaid,
gallwn newid, trwy dy gariad grasol.
Amen

Cân

'Arglwydd, maddau in mor dlodaidd fu ein diolch am bob rhodd'

Siôn Aled (*Caneuon Ffydd* 828)

Gwneud

Mae gwefan Masnach Deg yn dweud – 'Trwy Fasnach Deg mae gennych chi'r pŵer i newid y byd bob dydd. Gall dewisiadau siopa syml sicrhau gwell bargaen i ffermwyr. Ac mae hynny'n golygu eu bod yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain, rheoli eu dyfodol, a byw bywyd ag urddas, fel mae pawb yn ei haeddu.'

Beth am weithio tuag at ddod yn eglwys Masnach Deg? Sut gallech chi fynd ati i wneud hynny?⁷


Defnyddiwch de a choffi Masnach Deg ar ôl y gwasanaethau ac ym mhob cyfarfod rydych chi'n gyfrifol amdano.

Symudwch ymlaen i ddefnyddio cynnyrch Masnach Deg eraill, fel siwgwr, bisgedi a ffrwythau.

Ewch ati i hyrwyddo Masnach Deg yn ystod Pythefnos Masnach Deg ac yn ystod y flwyddyn trwy ddiwyddiadau, addoliad a gweithgareddau eraill, ble bynnag y gallwch chi.

⁶ <https://www.christianaid.org.uk/resources/worship/prayer-fair-trade>

⁷ <https://www.fairtrade.org.uk/Get-Involved/In-your-community/Faith-Groups/Fairtrade-Churches>



3 SUT MAE BYW'N DDA GYDA PHOBL ERAILL

Mae dewisiadau moesegol yn realiti pob dydd!

'Mae cysylltiadau cymhleth yn gwau trwy ein pensaernïaeth economaidd bresennol. Cychwynnodd y gydberthynas yn yr Ymerodraeth, yn y cyfnod o echdynnu adnoddau a seiliwyd ar lafur caethweision. Mae'r colocwiwm hwn wedi dod â ni wyneb yn wyneb â pherthnasoedd trefedigaethol y gorffennol a'r mathau modern o gaethwasiaeth sy'n codi yn Ymerodraeth y presennol. Rydym yn ymrwymo i ymgysylltu'n fwriadol â'n gilydd, ac ar draws ein rhanbarthau, mewn modd sy'n onest ac yn gwbl agored i glywed.'⁸

Gweithgaredd ymgynnull

Rydyn ni'n gwneud dewisiadau moesegol drwy'r amser, er na fyddwn ni o reidrwydd bob amser yn meddwl amdano yn y termau hynny. Mae sôn am 'dewisiadau moesegol' yn gwneud iddo swnio'n rhywbeth pwysfawr sy'n cael effaith bellgyrhaeddol ar lawer o bobl. Ond mae anghyfiawnder, ecsbloetio ac annhegwch yn digwydd o'n cwmpas ym mhobman. Yn wir, os byddwn ni'n wynebu problem foesol neu foesegol, hyd yn oed un 'fach', ac rydyn ni'n dewis dweud dim, peidio ag ymyrryd, peidio â gwneud penderfyniad – rydyn ni newydd wneud dewis moesegol.

Darllen y Gair

Micha 6:1–8

Clywch yn awr beth a ddywed yr ARGLWYDD:

"Cod, dadlau dy achos o flaen y mynyddoedd, a bydded i'r bryniau glywed dy lais. Clywch achos yr ARGLWYDD, chwi fynyddoedd, chwi gadarn sylfeini'r ddaear; oherwydd y mae gan yr ARGLWYDD achos yn erbyn ei bobl, ac fe'i dadlau yn erbyn Israel. O fy mhobl, beth a wneuthum i ti? Sut y bliniais di? Ateb fi. Dygais di i fyny o'r Aifft, gwaredais di o dŷ'r caethiwed, a rhoddais Moses, Aaron a Miriam i'th arwain. O fy mhobl, cofia beth oedd bwriad Balac brenin Moab, a sut yr atebodd Balaam fab Beor ef, a hefyd y daith o Sittim i Gilgal, er mwyn iti wybod cyfiawnder yr ARGLWYDD."

⁸ Dyfyniad o Ddatganiad Kingston Ionawr 2017



Â pha beth y dof o flaen yr ARGLWYDD, a phlygu gerbron y Duw uchel?

A ddof ger ei fron â phoethoffrymau, neu â lloi blwydd? A fydd yr ARGLWYDD yn fodlon ar filoedd o hyrddod neu ar fyrddiwn o afonydd olew?

A rof fy nghyntafanedig am fy nghamwedd, fy mhlant fy hun am fy mhechod? Dywedodd wrthyf, feidrolyn, beth sydd dda, a'r hyn a gais yr ARGLWYDD gennyf:

dim ond gwneud beth sy'n iawn, caru teyrngarwch, ac ymostwng i rodio'n ostyngedig gyda'th Dduw. (Beibl Cymraeg Newydd)

Munud i feddwl ...

Ydych chi'n meddwl ein bod ni'n achosi siom i Dduw os byddwn ni'n methu â throï ato mewn gweddi cyn i ni wneud ein holl ddewisiadau pwysig mewn bywyd, ac yn sicr pob dewis sy'n effeithio ar eraill ac ar ein planed? Mae gofyn i Dduw am arweiniad a chyfeiriad yn rhan o gerdded yn ostyngedig gydag ef, a phan fydd ef yn siarad â ni ac yn dangos ei ffordd i ni, bydd yn gweithredu o blaid cyfiawnder a thrugaredd.

Mae'n gallu bod yn anodd iawn siarad am werthoedd ac egwyddorion Cristnogol yn ein cymdeithas ni heddiw, gan ein bod, fel y clywn yn gyson, yn byw mewn oes 'ôl-Gristnogol'. Ond onid y dewis sy'n sylfaen ar gyfer pob dewis moesegol arall yw'r dewis i wneud hynny? Mynnu sefyll i fyny dros werthoedd a safbwyntiau Iesu, hyd yn oed pan fydd hynny'n amhoblogaidd neu'n cael ei ystyried yn rhywbeth o'r gorffennol?

Allwn ni ymrwymo gyda'n gilydd i gael hyd i ffyrdd o osgoi cael ein troi'n glwb Cristnogol sy'n siarad â'i hun yn unig? Allwn ni gael hyd i lais cryfach i gyrraedd y cymunedau o'n cwmpas? Mae dewis ysbrydol a moesegol i'w wneud yma.

Gweddi

Annwyl Arglwydd,

Rho lais i ni, gwna ni'n fentrus o'r newydd, a boed i ni feddu ar dy ddoethineb di yn ein dewisiadau a dod â'n meddyliau a'n penderfyniadau atat ti.

Amen

Cân

'A ddoi di i'm dilyn i'

John L. Bell a Graham Maule cyf. Pryderi Llwyd Jones (*Caneuon Ffydd* 801)

Gwneud

Cysylltwch â'ch cyngor lleol a gofyn iddyn nhw pa gymunedau penodol yn yr ardal sy'n wynebu'r risg uchaf o ran problemau iechyd, diogelwch neu addysg. Ewch ati i ddarganfod pa ffactorau sy'n gwneud eu sefyllfa mor wael, neu pa bwysau sy'n gwaethygu eu sefyllfa. Oes anghyfiawnder yn digwydd? Bydd gwneud hyn yn golygu gwneud dewis moesegol.

Rhannu

Cysylltwch ag eglwysi yn eich ardal leol i drafod beth gallech chi ei wneud gyda'ch gilydd i greu rhywfaint o wahaniaeth i'r bobl yn y cymunedau hynny. Teithiwch filltir ychwanegol drostyn nhw. Dyma ail ddewis moesegol.

Gweddi

Arglwydd, helpa fi i'th roi di a'th Deyrnas yn wir yn gyntaf yn fy mywyd. Helpa fi i fod eisiau ceisio dy gyfiawnder ym mhopeth a wna, ac ym mhob perthynas sydd gennyf ag eraill.

Helpa fi i feithrin dewrder a gras i rannu dy werthoedd a'th safbwyntiau di gydag eraill pan ddaw'n fater o wneud dewisiadau, p'un a yw'r bobl eraill hynny'n ffrindiau a chymdogion, neu'n llunwyr penderfyniadau mewn sefydliadau lleol neu genedlaethol.

Helpa fi bob amser i geisio gweithredu'n gyfiawn, i garu trugaredd, ac i gerdded yn ostyngedig gyda thi. Helpa fi bob amser i annog eraill i weithredu'n gyfiawn, i garu trugaredd, ac i gerdded yn ostyngedig gyda thi.

Amen

Addasiad o waith Walter Riggans



4 SUT MAE BYW'N DDA GYDA PHOBL ERAILL

Mae'r ddynoliaeth yn freintiedig, ond daw cyfrifoldebau mawr law yn llaw â breintiau

'Rydym wedi cydnabod bod ein heglwysi yn gweithredu'n fuan i liniaru tlogi, ond bod rhaid i ni symud nid yn unig tuag at ymyrryd mewn tlogi, ond at ddymuno a cheisio dileu tlogi. Nid yw hyd yn oed yn ddigon 'dysgu bod dynol i bysgota', os yw'r dŵr lle mae'r pysgod yn nofio wedi'i lygru, ac mae'r cyfoethog wedi cipio'r tir lle mae'r pwll. Rhaid i ni roi'r gorau i fod yn rhan o'r system sy'n cynnal y drefn bresennol.'

Gweithgaredd ymgynnull

Myfyrion ar iechyd a llesiant y cefnforoedd, y tir a'r coedwigoedd, a'r pysgod, yr adar a'r creaduriaid sy'n byw yn yr awyr, ar y ddaear ac yn y môr. Beth fydd cyflwr yr etifeddiaeth rydyn ni'n ei throsglwyddo i blant cenedlaethau'r dyfodol?

Cynllun dyfarnu A Rocha UK yw Eco-Church, ar gyfer eglwysi yng Nghymru a Lloegr sydd am ddangos bod yr efengyl yn newyddion da i ddaear Duw.

Darllen y Gair

Genesis 1:26

'Dywedodd Duw, "Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni, i lywodraethu ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ar yr anifeiliaid gwylt, ar yr holl ddaear, ac ar bopeth sy'n ymlusgo ar y ddaear." '

(Beibl Cymraeg Newydd)

⁹Dyfyniad o Ddatganiad Kingston Ionawr 2017

Munud i feddwl ...

Rydyn ni wedi'n creu ar lun y Duw sy'n Dri yn Un. Os ydyn ni'n wir yn cerdded ar lwybr Duw dylai tystiolaeth o'i gariad, ei wirionedd a'i ddoethineb fod yn weladwy yn ein penderfyniadau, ein cynllunio a'n gweithredoedd. Ydy hynny'n wir amdanon ni? Sut rydyn ni wedi ymateb i'r fraint aruthrol a roddodd Duw i'r ddynoliaeth, sef rheoli'r tir, yr awyr, y môr, a phopeth byw?

Mae bod ag awdurdod yn rhoi pŵer, ac os caiff pŵer ei gyplysu â doethineb a chariad mae'n estyn allan yn dyner, gan geisio lles pennaf popeth, annog twf a llesiant a chreu cytgord a heddwch. Ond pan gaiff pŵer ei gamddefnyddio mae'n dwyn ac yn disbyddu popeth o fewn ei gyrraedd, a hynny er mwyn hunan-foddhad a hunan-rymuso, heb sylwi ar unrhyw effeithiau negyddol, na hidio amdanynt. Gall pŵer ac awdurdod ein harwain i gyflawni pethau mawr, ond rhaid i ni gofio bob amser am ddysgeidiaeth Iesu ym Mathew 20:26 'pwy bynnag sydd am fod yn fawr yn eich plith, rhaid iddo fod yn was i chwi.' Mae Duw yn ein galw i reoli popeth byw trwy ofalu am y ddaear yn ddoeth, gyda chonsyrn am lesiant pob creadur sy'n byw yn yr awyr, ar y ddaear ac yn y môr.

Gadewch i ni ogoneddu Duw trwy ofalu am bopeth byw â doethineb a chariad Crist. Yn hytrach na bod yn fewnblyg a cheisio ein lles ein hunain, gadewch i ni werthfawrogi holl amrywiaeth a harddwch popeth a greodd Duw a gwneud ymgais ymwybodol i lywodraethu trwy wasanaethu pawb a phopeth sy'n byw ar y ddaear.

Cân


'Am brydferthwch daear lawr'

F. S. Pierpoint cyf. John Morris-Jones (*Caneuon Ffydd* 104)

Gweddi

Arglwydd Dduw, mae'r nefoedd yn datgan dy ogoniant. Rwy't wedi ein galw i reoli popeth byw. Helpa ni i wneud hynny â thynerwch, gan roi sylw i les pennaf popeth. Creaduriaid mawr gwyllt Gwastatir Affrica, y creaduriaid bychain sy'n llechu mewn llystyfiant, adar yr awyr, bywyd dirgel dyfnderoedd y môr. Helpa ni i ddysgu gan y morgrug bychain sy'n gweithio'n ddiflino, nid i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, ond rhai'r gytref. Rho i ni'r ddealltwriaeth gorfforaethol hon wrth ofalu am y ddaear, gan fynd ati i geisio lles pennaf pawb bob amser, a hynny yn enw Iesu, a'n dysgodd mai gwasanaeth didwyll yw gwir fawredd. Amen





Gwneud

Beth allwch chi wneud i ddiwallu anghenion creadur bach sy'n byw yn eich plith heddiw?

Bwydo'r adar; Casglu plastig o'r traeth neu sbwriel o'r parc; Ystyried y planhigion rydych chi'n eu tyfu yn yr ardd i annog ieir bach yr haf, adar a gwenyn i ymweld.

Rhannu

Gofynnwch i eraill ymuno â chi - gall eich eglwys, eich ysgol Sul, neu grwpiau cymunedol eraill i gyd gymryd camau cadarnhaol i fod yn fwy ymwybodol, yn fwy sylwgar, yn fwy ystyriol o holl greaduriaid y ddaear.

Gweddi

Dduw cariadus, maddau i ni pan fyddwn ni'n hunanol, pan fyddwn ni'n gafael yn yr hyn rydyn ni eisiau neu'r hyn rydyn ni'n meddwl bod arnom ei angen, heb ystyried beth mae'n ei gostio i eraill, boed hynny'n un o bobl neu'n un o greaduriaid y ddaear.

Rho i ni fwy o ymwybyddiaeth o'n cyfrifoldeb am bob bywyd, fel ein bod yn gwybod, pan ddaw'n bryd i ni adael y ddaear hon, ein bod wedi gwneud ein gorau dros y rhai fydd yn dilyn yn ôl ein traed. Yn enw Iesu, Amen.

Addasiad o waith Janice E. Andrews

5 SUT MAE BYW'N DDA GYDA'N DAEAR



Gwella'r ddaear!

'Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder.'¹⁰

Gweithgaredd ymgynnull

Lliwiwch y llun yma o deigr, sydd mewn perygl o farw allan, ac wrth i chi wneud hynny, molwch Dduw am gadwraeth.

¹⁰Ioan pennod 10, adnod 10b



Darllen y Gair

Salm 23:3

'y mae ef yn fy adfywio; fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.'
(Beibl Cymraeg Newydd)

Munud i feddwl ...

Tybed beth yw eich hoff ran chi o'r cread?

Tybed ydych chi'n mwynhau cefn gwlad, eich parc lleol, neu'n cael plaser yn syml wrth eistedd yn yr ardd?

Tybed ydych chi'n mwynhau'r môr, y traeth a sŵn y tonnau?

Tybed ydych chi'n mwynhau dringo mynyddoedd ac edmygu'r olygfa o'r copa?

Mae'r greadigaeth yn ei holl ffurfiau yn hardd, p'un a ydyn ni'n hoffi cefn gwlad neu lan y môr orau, ond fuoch chi erioed yn rhyfeddu at faint mae'r greadigaeth yn ein gwella, ein helpu a'n cynnal? Mae pawb ohonon ni'n gwybod bod coed yn amsugno carbon deuocsid ac yn rhannu ocsigen, mewn cytgord â ni, ac mae'n siŵr bod rhywun, rywdro, wedi dweud wrthyfych chi am fynd allan i gael awyr iach, neu efallai eich bod chi'n ymwybodol o briodweddau iachusol aromatherapi neu homeopathi? Mae'r greadigaeth yn rhyfeddol.

Mae Salm 23 yn ategu'r lles sydd i ni yn y greadigaeth – mae Duw yn ein tywys gerllaw dyfroedd tawel, ac yn gwneud i ni orwedd mewn porfeydd breision – manau lle ceir iachâd a thangnefedd.

Ond mae'r ddaear mewn perygl oherwydd y newid yn yr hinsawdd a llygredd ac mae gormod o anifeiliaid mewn perygl o farw allan.



'Mae rhannau helaeth o'r fforestydd glaw yn cael eu rhwygo i lawr neu eu llosgi er mwyn cael mwy o olew palmwydd. Yn Indonesia yn unig, mae ardal maint cae pêl-droed yn cael ei cholli bob 25 eiliad. Pan gaiff y coedwigoedd hyn eu dinistrio, mae pobl leol yn colli eu cartrefi ac mae rhywogaethau rhyfeddol fel yr orangwtan yn cael eu rhoi mewn perygl.'¹¹

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod 12.7 miliwn tonnell o blastig – popeth o boteli a bagiau plastig i ficrogleiniau – yn llifo i'n moroedd bob blwyddyn. Mae hynny'n golygu llond tryc o sbwriel bob munud!¹²

Tybed sut rydych chi'n defnyddio'r greadigaeth i gael gwellhad?

Tybed sut gallwch chi helpu i wella'r greadigaeth?

Gweddi

Arglwydd cariadus, diolch am fod yn fugail i mi a'm harwain i orwedd mewn porfeydd breision.

Rwy'n dy foli am y greadigaeth a'r mwynhad a gaf ynddi.

Amen

Cân

'Nef a daear, tir a môr'

Joachim Neander cyf. Elfed (*Caneuon Ffydd* 116)

¹¹<https://www.greenpeace.org.uk/what-we-do/forests/indonesia/>

¹²<https://www.greenpeace.org.uk/what-we-do/oceans/plastics/>



Gwneud

Trefnwch ymweliad i'ch eglwys neu eich grŵp i gefn gwlad neu lan y môr a mwynhau'r cread.

Dysgwch fwy am gynnyrch 'Eco' – <https://www.ecover.com/>

Dysgwch fwy am aromatherapi a phriodweddau iachusol planhigion
<https://aromatherapyforchristians.org/>

Rhannu

Gwahoddwch rywun o Greenpeace neu eich Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt leol¹³ i ddod a siarad am sut gall eich eglwys eu cefnogi nhw.

Gweddi

Dduw ein Creawdwr,

Diolchwn i ti am y greadigaeth a'n gallu i'w mwynhau.

Diolchwn i ti am y grymoedd iachusol yn y cread sy'n ein hadnewyddu a'n hadfywio.

Maddau i ni, Arglwydd, nad ydym ni bob amser yn gofalu am y byd fel y dylem, a'n bod ni'n gwastraffu neu'n difrodi'n ddiangen.

Dangos i ni ffyrdd o ofalu am y ddaear.

Dangos i ni ffyrdd o ofalu am eraill.

Gad i'r cread ein gwella a'n helpu i orffwys.

Gad i'r cread ddod â ni'n nes atat ti. Amen

Addasiad o waith Janice E. Andrews

¹³ <https://www.wildlifetrusts.org/>

SUPPORT REFUGEES. DROP OFF POINT HERE



6 SUT MAE BYW'N DDA GYDA'N DAEAR

'Y rhai sy'n talu'r pris sy'n cael y budd lleiaf.'

'Rydym yn cadarnhau nad eu cyfoeth na'u gweithgarwch economaidd sy'n pennu gwerth bod dynol. Rydym yn honni nad yw cyfoeth bob amser yn cael ei greu trwy waith caled nac mewn modd gonest. Rydym ni'n credu bod anghydraddoldeb ei hun yn her i werthoedd y deyrnas, ac rydym yn dyheu am strwythur sy'n gofyn bod pawb sy'n gyfoethog yn cyfrannu at les y gymdeithas gyfan.'¹⁴

Gweithgaredd ymgynnull

Darllenwch yr emyn hwn yn weddigar.

Cofia'r newynog, nefol Dad,
filiynau llesg a thrist eu stad
sy'n llusgo byw yng nghysgod bedd,
ac angau'n rhythu yn eu gwedd.

Rho ynom dy dosturi di,
i weld mai brodyr oll ym ni:
y du a'r gwyn, y llwm a'r llawn,
un gwaed, un teulu drwy dy ddawn.

O gwared ni rhag in osgoi
y sawl ni wŷr at bwy i droi;
gwna ni'n Samariaid o un fryd,
i helpu'r gwael yn hael o hyd.

Dysg inni'r ffordd i weini'n llon
er lleddfu angen byd o'r bron,
rhoi gobaith gwir i'r gwan a'r prudd,
ac archwaeth dwfn at faeth y ffydd.

Holl angen dyn, tydi a'i gŵyr,
d'Efengyl a'i diwalla'n llwyr;
nid digon popeth hebot ti:
bara ein bywyd, cynnal ni.

Tudor Davies (*Caneuon Ffydd* 816)

¹⁴ Dyfyniad o Ddatganiad Kingston, Ionawr 2017



Darllen y Gair

2 Corinthiaid 9: 6–11

Cofiwch hyn: a heuo'n brin a fed yn brin, a heuo'n hael a fed yn hael. Rhaid i bawb roi o wirfodd ei galon, nid o anfodd neu o raid, oherwydd rhoddwr llawen y mae Duw'n ei garu. Y mae Duw yn gallu rhoi pob gras i chwi yn helaeth, er mwyn i chwi, ar ben eich digon bob amser ym mhob peth, allu rhoi yn helaeth i bob gwaith da. Fel y mae'n ysgrifenedig:

"Gwasgarodd ei roddion ymhlith y tlodion, y mae ei haelioni yn para am byth."

Bydd yr hwn sydd yn rhoi had i'r heuwr a bara iddo'n ymborth yn rhoi had i chwithau ac yn ei amlhau; bydd yn peri i ffrwyth eich haelioni gynyddu. Ym mhob peth cewch eich cyfoethogi ar gyfer pob haelioni, a bydd hynny trwom ni yn esgor ar ddiolchgarwch i Dduw. **(Beibl Cymraeg Newydd)**

Munud i feddwl ...

Mae'r blaned yn lle mor anferth, gyda phoblogaeth o fwy na 7 biliwn o fenywod, dynion a phlant. Sut gallwn ni sicrhau bod pawb yn y byd yn cael digon i fyw arno? Mae pob mudiad pwysig sy'n ceisio cyflawni newid er gwell yn dechrau gyda ni – wrth i chi a fi ymrwymo a gofalu ein bod ni'n meddi'r hyn rydyn ni'n ei hau; nid yn yr ystyr lythrennol yn unig fel wrth ffermio, ond yn yr ystyr ein bod ni'n cael yn ôl yr hyn rydyn ni'n ei roi. Os rhoddwn ni fwy o gariad, bydd y byd yn lle mwy cyfoethog; os rhoddwn ni fwy o ras, bydd y byd yn lle mwy heddychlon; os rhoddwn ni fwy o dosturi, bydd y byd yn cael ei drysori'n fwy.

Os byddwn ni'n ymddwyn mewn ffordd gybyddlyd neu angharedig, byddwn ni'n meddi'r un math o ymddygiad yn ôl. Os byddwn ni'n ddigon dewr a gofalgar i weithredu mewn modd hael a charedig, cawn haelioni yn ôl. Mae meithrin 'agwedd ddiolchgar' a charu ein cymydog fel ni ein hunain yn creu mwy o gynhaeaf i bawb. Byddwn ni'n elwa o deimladau braf a bydd y rhai o'n cwmpas yn ymwybodol o fwy o ofal a gwerthfawrogiad – mae newyddion da ac ymddygiad caredig yn heintus!

Roedd Paul yn ysgrifennu at yr eglwys ifanc yng Nghorinth, ac mae pennod 9 ar ei hyd yn sôn am roi'n hael, â chalon lawen. Roedd yn sôn am arian, ond hefyd am yr holl ffyrdd eraill gallwn ni roi, yn fwyaf pwysig pan fyddwn ni'n rhoi ohonom ein hunain. Nid rhywbeth i'w gymryd yn ysgafn yw hyn, fel mae Paul yn dangos. Mae'n cychwyn adnod 6 â nodyn i'r darllenydd – cofia hyn, mae'n dweud. Mae'n ein cyfeirio at rywbeth penodol mae angen i ni weithredu yn ei gylch, felly beth am i ninnau gofio hyn:

Os ydyn ni am sicrhau cynhaeaf i'r byd cyfan, mae angen i ni feddwl am ein gweithredoedd, fel dinasyddion, siopwyr, aelodau eglwys, cymdogion, rhieni, ffrindiau, gweithwyr... efallai gallen ni ofyn ambell gwestiwn syml i'n hunain – all rhywbeth da dyfu o'r hyn rwyf fi wedi'i wneud? Ydw i wedi gwneud rhywbeth fydd yn helpu rhywun i ffynnu? Mae rhoi yn llawen yn trawsnewid y rhoddwr a'r ddaear gyfan. Byddwn ni'n meddi'r hyn rydyn ni'n ei hau, yn ein milltir sgwâr ac ar ein planed.

Gweddi

Dduw Cariadus, helpa fi i fyw mewn ffordd hael a llawen.

Helpa fi i wneud hynny hyd yn oed ar adegau pan fydda i'n teimlo'n isel neu bod bywyd yn fy llethu.

Dduw Bywyd, crea galon hael ynof fi, calon sy'n barod i roi, er mwyn cyflawni dy ewyllys di.

Rwy'n gwybod y byddi di'n fy mendithio yn hyn, ac yn bendithio eraill mae fy haelioni wedi cyffwrdd â nhw, boed hynny ar ffurf gwên, gair caredig, gweithred feddylgar neu wrando â chalon ofalgar.

Gofynnaf hyn yn enw Iesu, sy'n tywys ac yn gwaredu. Amen.

Cân

'Diolch am roddi imi'r bore'

Martin G. Schneider cyf. Dafydd Owen ac Aled Lloyd Davies (*Caneuon Ffydd* 125)

Gwneud

Gwenu.

Gwrando'n astud.

Rhoi o'n gwirfodd i eraill, heb deimlo
bod rheolau neu ofynion yn ein gorfodi i
wneud hynny

Cynnal hunan-archwiliad – beth rydyn
ni'n ei roi, ac i bwy?

Rhoi ohonom ein hunain, yn ddoniau,
amser a chariad.

Beth gallech chi ei wneud?



Rhannu

Sut gallwn ni weithredu er mwyn rhoi'n hael? Mae gweithredoedd pawb ohonon ni'n effeithio ar y byd, ac yn dweud mwy na geiriau, ond gall gweithredoedd heb yr agwedd iawn fod yn wag, felly mae agwedd lawen, hael yn bwysig! Pa fath o agwedd gallen ni feithrin i rannu cariad ac ewyllys da â phawb? Os rhoddwn ni â chalon lawen – ein hamser, ein cariad, ein hegri, ein gofal – byddwn ni'n medi hynny ar ei ganfed yn ein cymunedau, ein heglwysi a'n gwledydd.

Beth am drefnu cyfnod rheolaidd o weddi a myfyrdod yn eich eglwys i feddwl am ffyrdd o helpu eraill i ffynnu ...? Gallai hynny arwain at syniadau cenhadu, annog eich gilydd, a chael hyd i fwy o ffyrdd o hau hadau cariad yn eich cymunedau...

Gweddï

Dduw Byw,

Rwy'n gofyn i ti fy nefnyddio i yn fendith i eraill, ac i hau hadau caredigrwydd a chariad. Rwy'n gwybod y byddaf, wrth fendithio eraill, yn medi cynhaeaf toreithiog. Rwy'n gweddïo y bydd fy eglwys yn hau hadau cariad a thosturi yn fy nghymuned ac ar draws y gwledydd, er budd i bawb.

Dduw cariadus, greawdwr sanctaidd pawb a phopeth, rwy'n gweddïo y byddi'n rhoi doethineb, caredigrwydd a dewrder i mi hau hadau cariad yn hael, er mwyn i'r byd fedru cael cynhaeaf toreithiog. Amen

Addasiad o waith Sara Iles



7 SUT MAE BYW'N DDA GYDAG ARIAN

Mae arian yn siarad

'Mae'r ffaith bod cyfoeth yr 8 dyn cyfoethocaf yn y byd yn cyfateb i enillion y 3.6 biliwn o bobl dlotaf yn y byd, sydd yn ei dro yn cyfateb i hanner poblogaeth y byd, yn peri arswyd i ni. Clywn eto lesu yn ein gorfodi i ddewis rhwng Cesar a Duw wrth roi trefn ar ein harian. Ni allwn gymeradwyo cronni cyfoeth fel nod i'w ddeisyf, rhaid i ni ddyheu am "Economi Bywyd," sy'n dymuno sicrhau bywyd yn ei holl gyflawnder i greadigaeth gyfan Duw.'¹⁵

Gweithgaredd ymgynnull

Edrychwch ar y darnau arian yn eich pwrs – nodwch beth sydd arnyn nhw, ac o ba flwyddyn maen nhw'n dyddio. Meddyliwch am yr holl fannau gallai'r darnau arian hyn fod wedi teithio iddynt.

Darllen y Gair

Marc 11: 15–17

Daethant i Jerwsalem. Aeth i mewn i'r deml a dechreuodd fwrw allan y rhai oedd yn gwerthu a'r rhai oedd yn prynu yn y deml; taflodd i lawr fyrddau'r cyfnewidwyr arian a chadeiriau'r rhai oedd yn gwerthu colomennod, ac ni adawai i neb gludo dim trwy'r deml. A dechreuodd eu dysgu a dweud wrthynt, "Onid yw'n ysgrifenedig: 'Gelwir fy nhŷ i yn dŷ gweddi i'r holl genhedloedd, ond yr ydych chiwi wedi ei wneud yn ogof lladron?'" (Beibl Cymraeg Newydd)

¹⁵ Dyfyniad o Ddatganiad Kingston, Ionawr 2017

Munud i feddwl ...

Pam roedd Iesu'n siarad cymaint am arian? Rhodd y weddw (Luc 21:1–5); Allwch chi ddim gwasanaethu Duw ac arian (Mathew 6:24); Y benthyciwr arian (Luc 51:43); Y dyn ifanc cyfoethog (Mathew 19:16–22), a llawer mwy.

Dyw arian ddim yn bwysig, ac eto mae i weld yn cael lle digon amlwg yng ngweinidogaeth Iesu. Wrth gwrs, nid yr arian ei hun sy'n bwysig, ond ein perthynas ni ag e.

Mae Duw yn caru pawb ohonon ni, p'un a oes gennym ni dipyn o arian yn y banc neu beidio, ac mae hanes y dyn ifanc cyfoethog yn arwain at y dywediad cyfarwydd ei bod yn anoddach i ddyn cyfoethog fynd i'r nefoedd nag i gamel fynd trwy grau nodwydd. Yr adnod sy'n aml yn cael ei hanghofio, ond sydd o bosibl ymhlith y pwysicaf yn y Testament Newydd, yw Mathew 19:26: 'Gyda dynion y mae hyn yn amhosibl, ond gyda Duw y mae pob peth yn bosibl' felly trwy ffydd ac ymddiriedaeth yn Nuw mae modd ymddwyn yn llawer mwy egwyddorol nag yr ydyn ni'n tueddu i wneud.

Roedd Iesu yn gweiddi ac yn grac, nid oherwydd bod cyfnewidwyr arian (bancwyr) yn bodoli, ond oherwydd eu bod wedi mynd yn llwgr, ac wedi mynd â'u llygredd i dir sanctaidd. Yr ergyd mae Iesu am i ni ei deall yw'r berthynas rhwng arian a dwyn. Mae ar bawb ohonon ni angen arian i oroesi yn ein cymdeithas, ond mae'n rhaid i ni beidio â'i ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n golygu ein bod ni'n dwyn oddi ar bobl eraill. Byddai llawer ym myd y banciau yn protestio yn wyneb meddylfryd o'r fath, ond mae angen i ni gofio am sgandal y PPI a chostau bancio eithafol, heb sôn am foeseg buddsoddiadau a beth gallai ein harian fod yn ei hyrwyddo mewn gwirionedd.

Tybed beth gallwch chi ei hyrwyddo â'ch arian?

Tybed o ble mae eich incwm chi yn dod?

Tybed beth yw eich agwedd chi at arian?

Gweddi

Arglwydd Dduw, anfon dy Ysbryd Glân arnom ni i roi i ni'r nerth, y cadernid a'r dewrder moesol i ddilyn dysgeidiaeth Iesu ar bwysigrwydd dy wasanaethu Di yn hytrach nag arian. Amen

Cân

'Cymer, Arglwydd, f'einioes i'

Frances R. Havergal cyf. John Morris-Jones (*Caneuon Ffydd 767*)

Gwneud

Gyda phwy rydych chi'n bancio? Oes ganddyn nhw bolisi bancio moesegol?

Fyddech chi'n ystyried newid banc petaech chi'n meddwl bod hynny'n gam doeth yn foesegol?

Rhannu

Mae llawer o eglwysi yn gweithio gyda CAP (Christians Against Poverty).¹⁶

Ewch ati i ddysgu am eu gwaith a gwasanaethau eraill lleol sy'n cynghori ar ddyledion.

Ydy hyn yn rhywbeth gallai eich eglwys ei wneud neu ei gefnogi'n lleol mewn rhyw ffordd?

Gweddi

Arglwydd Dduw, mae byd bancio a buddsoddiadau yn aml yn gallu peri dryswch i ni – maddau i ni os ydym wedi gwneud arian trwy fuddsoddiadau sydd wedi achosi niwed i eraill. Amddiffyn y rhai sydd mewn perygl oherwydd buddsoddiadau anfoesegol ar draws y byd. Helpa ni i wneud dewisiadau a phenderfyniadau doeth yng nghyswllt bancio a phrynu. Amen

Addasiad o waith Yvonne Campbell



¹⁶ <https://capuk.org>



8 SUT MAE BYW'N DDA GYDAG ARIAN

Patrymau'r byd ...

'Gall ein cariad at ein gilydd, a'r boen a achosir pan welwn ein cymydog mewn poen, ein cymell i ddefnyddio adnoddau'r oes bresennol Ym mhopeth a wnawn, trown at lesu, a gyfeiriodd mor aml at arian, nad oedd byth yn cymryd economeg yn ganiataol, ac nad yw'n dymuno i ninnau gymryd economeg ein hoes yn ganiataol.' ¹⁷

Gweithgaredd ymgynnull

Beth oedd y peth diwethaf brynoch chi i'ch hunan a pham?

Darllen y Gair

Rhufeiniaid 12:1–8

Am hynny, yr wyf yn ymbil arnoch, gyfeillion, ar sail tosturiaethau Duw, i'ch offrymu eich hunain yn aberth byw, sanctaidd a derbyniol gan Dduw. Felly y rhowch iddo addoliad ysbrydol. A pheidiwch â chydymffurfio â'r byd hwn, ond bydded ichwi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef.

Oherwydd, yn rhinwedd y gras y mae Duw wedi ei roi i mi, yr wyf yn dweud wrth bob un yn eich plith am beidio â'i gyfrif ei hun yn well nag y dyldid ei gyfrif, ond bod yn gyfrifol yn ei gyfrif, ac yn gyson â'r mesur o ffydd y mae Duw wedi ei roi i bob un. Yn union fel y mae gennym aelodau lawer mewn un corff, ond nad oes gan yr holl aelodau yr un gwaith, felly hefyd yr ydym ni, sy'n llawer, yn un corff yng Nghrist, ac yn aelodau bob un i'w gilydd. A chan fod gennym ddoniau sy'n amrywio yn ôl y gras a roddwyd i ni, dylem eu harfer yn gyson â hynny. Os proffwydoliaeth yw dy ddawn, arfer hi yn gymesur â'th ffydd. Os dawn gweini ydyw, arfer hi i weini. Os addysgu yw dy ddawn, arfer dy ddawn i addysgu, ac os cynghori, i gynghori. Os wyt yn rhannu ag eraill, gwna hynny gyda haelioni; os wyt yn arweinydd, gwna'r gwaith gydag ymroddiad; os wyt yn dangos tosturi, gwna hynny gyda llawenydd. (Beibl Cymraeg Newydd)

Munud i feddwl ...

Ydych chi erioed wedi gwario gormod yn ceisio edrych yn gefnog? Mae'n fagl hawdd syrthio iddi wrth i bawb o'n cwmpas ddilyn y ffasiwn ddiweddar, prynu'r teclyn newydd sy'n cael ei hysbysebu, neu heidio i brynu brand arbennig.

¹⁷ Dyfyniad o Ddatganiad Kingston, Ionawr 2017

Weithiau mae'n anodd peidio â chael ein denu gan y pethau newydd diweddaraf a rhoi cynnig arnyn nhw oherwydd bod pawb fel petaen nhw'n eu trafod – ond neges y rhan hon o'r llythyr at y Rhufeiniaid yw ein bod ni ddim i gydymffurfio â phatrymau'r byd hwn, ond yn hytrach cael ein trawsffurfio trwy adnewyddu ein meddyliau.

Tybed beth yw patrwm y byd hwn?

Tybed oes angen adnewyddu fy meddwl i, a'ch meddwl chi?

Mae ewyllys Duw yn berffaith ac mae ganddo lwybr da i ni ei ddilyn yn y byd hwn, ond mae pawb ohonon ni'n hoffi teimlo'n ddiogel a'n bod ni'n cael ein derbyn, ac weithiau rydyn ni'n tueddu i wneud hynny trwy efelychu pobl eraill, ond mae'n rhaid i ni wrthsefyll dylanwad y byd a phobl ifanc a dilyn dylanwad Duw.

Gweddi

Arglwydd Dduw

Rydyn ni'n dy geisio, rydyn ni'n curo wrth dy ddrws ac yn diolch i ti am ein derbyn a'n caru fel yr ydyn ni, gyda neu heb y ffasiynau diweddaraf. Amen

Cân

'Ceisiwch yn gyntaf'

Enid Morgan (*Caneuon Ffydd* 274)

Gwneud

Ewch ati i ddidoli gartref a rhoi rhai eitemau i siop elusen leol.

Rhannu

Gwirfoddolwch mewn siop elusen leol.

Gweddiwch am drefnu noson cyfnewid dillad neu wisg ysgol yn eich eglwys.

Gweddi

Arglwydd graslon

Mae gennym ni gymaint o ddewis o ran beth i'w brynu a sut a ble i siopa. Helpa ni i ddewis yn ddoeth, a'n hatal rhag prynu'n ddifeddwl neu i greu argraff ar eraill – rho i ni a'n teuluoedd allu i ddewis yn llesol, fel bod ein meddyliau'n cael eu hadnewyddu i weithredu'n unol ag ewyllys berffaith Duw. Amen

Addasiad o waith Yvonne Campbell

Syniadau Creadigol ar gyfer Gweddi¹⁸



Gweddiâu Hadau

Bydd arnoch chi angen: hadau (gallwch chi dyfu perlysiâu yn y tŷ ar hyd y flwyddyn), compost, potiau bach i blanhigion.

Daliwch rai hadau yn eich llaw, meddyliwch/trafodwch rai o'r problemau mae ffermwyr yn y Deyrnas Unedig ac ar draws y byd yn eu hwynebu.

Efallai bod rhywun yn eich cynulleidfa yn ffermio neu'n adnabod ffermwr lleol.

Dychmygwch sut brofiad fyddai ffermio mewn gwahanol gymunedau. Pa heriau byddech chi'n eu hwynebu? Pa bethau byddech chi'n ddiolchgar amdanynt?

Chwaraewch gerddoriaeth dawel yn y cefndir a gweddïo dros ffermwyr a'u cymunedau ar draws y byd.

Yn arwydd o'ch gweddïau plannwch yr hadau yn eich llaw mewn potyn. Gofalwch am y planhigyn, a gweddïo dros ffermwyr wrth wneud hynny ac wrth fwynhau eich cynhaeaf bach eich hun.



¹⁸ Seiliwyd ar apêl Cymorth Cristnogol, Cynhaeaf i'r Byd, 2017



Gweddïau Map

Bydd arnoch chi angen: map mawr o unrhyw wlad rydych chi eisiau gweddïo drosti, efallai eich gwlad eich hun neu wlad mae gennych chi gysylltiadau â hi (does dim rhaid i'r map fod yn fanwl, byddai amlinelliad yn ddigonol), nodiadau gludiog, pinnau ysgrifennu.

Meddyliwch am rai o'r problemau mae'r wlad rydych wedi'i dewis yn eu hwynebu, a'u trafod.

Dychmygwch sut brofiad fyddai byw mewn cymuned wahanol. Pa heriau byddech chi'n eu hwynebu? Pa bethau byddech chi'n ddiolchgar amdanyn nhw?

Symudwch at y map ac ysgrifennu gweddïau arno dros bobl, cymunedau, busnesau, bywyd gwyllt. Does dim angen iddyn nhw fod yn hir, a gallech chi dynnu llun yn lle dewis geiriau, os hoffech chi. Yn dibynnu ar faint y map a'r lle o'i gwmpas, gallech chi ysgrifennu'r gweddïau ar nodiadau gludiog a'u glynu arno. Pan fyddwch wedi creu'r holl weddïau, cyflwynwch nhw i Dduw i gloi'r sesiwn.

Gweddïau Modelu Clai

Bydd arnoch chi angen: darn o glai modelu ar gyfer pob person.

Rhannwch/meddyliwch a siaradwch am rai o'r problemau rydych chi, eich tref neu eich dinas, neu hyd yn oed y byd, yn eu hwynebu. Tynnwch sylw at heriau'r newid yn yr hinsawdd, manteision plannu coed a blodau, pryderon ynghylch pecynnu a phlastig. Wrth i chi siarad, gwahoddwch y gynulleidfa i fodelu rhywbeth, e.e. yr haul, adar, offer, planhigion, pobl, darnau arian. Gwahoddwch bawb i droi at y person yn eu hymyl a rhannu eu modelau. Yna gweddïwch gyda'ch gilydd dros y byd.



Dyddiadur Gweddi



Dydd Sul

Molwn Dduw am ein byd, am y cread, am fendithion y cread. Diolchwn i Dduw am orffwys a gweddiwn am heddwch yn ein byd.

Dydd Llun

Gweddiwn dros bawb sy'n byw mewn tloidi yn y Deyrnas Unedig a thramor. Boed iddyn nhw gael y cymorth, y gefnogaeth a'r cyngor angenrheidiol ar gyfer bywyd da. Bendithia nhw â doethineb wrth wario ac amddiffyn nhw rhag salwch, trosedd a benthyciadau llog uchel. Gweddiwn dros bawb sy'n gweithio i helpu eraill, yn arbennig Cymorth Cristnogol. Rho i'r gweithwyr a'r sefydliad y weledigaeth, yr adnoddau a'r cyfleoedd i newid bywydau.

Dydd Mawrth

Diolchwn i Dduw am waith masnach deg. Gweddiwn y bydd y gwaith hwn yn dal i gael ei fendithio fel bod mwy o ffermwyr yn profi cyfiawnder. Sbarduna ni i brynu a hybu cynnyrch masnach deg ble bynnag yr awn ni.

Dydd Mercher

Gweddiwn dros fyd bancio a buddsoddiadau. Gweddiwn am werthoedd moesol ac egwyddorol. Gweddiwn dros bawb sy'n cael trafferth gydag arian, o ran ei reoli, ei ennill neu ei wario. Gweddiwn dros y rhai sydd mewn sefyllfa fregus yn y byd oherwydd arian, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tloidi. Gweddiwn am dy amddiffyniad iddynt.

Dydd Iau

Gweddïwn dros bawb a phopeth sy'n cynnal ein byd, yn ffermwyr, yn goedwigoedd, yn weithwyr cadwraeth. Gweddïwn dros bawb sy'n ein hannog i ofalu am ein byd a'i ddiogelu. Rho iddyn nhw'r adnoddau a'r sgiliau mae arnyn nhw eu hangen. Helpa ni i fod yn fwy rhagweithiol wrth ailgylchu, casglu sbwriel, arbed ynni a helpu bywyd gwyllt.

Dydd Gwener

Gweddïwn dros arweinwyr y byd a'r rhai sydd â phŵer i newid a chreu polisi. Gweddïwn am ddoethineb wrth wneud penderfyniadau ynghylch y newid yn yr hinsawdd, masnachu pobl, llygredd, yr economi a chadwraeth.

Dydd Sadwrn

Diolchwn i Dduw am fywyd, am yr holl bethau da mewn bywyd, am ein bendithio â chartrefi a theuluoedd, am siopau lle mae digonedd o fwyd, am ddŵr glân yn ein tapiau a chyfleusterau hylendid da.

Diolchwn i Dduw am anifeiliaid, am anifeiliaid anwes, am fywyd gwyllt lleol.


Diolchwn i Dduw am harddwch y ddaear, cefn gwlad a glan y môr.

Diolchwn i Dduw am y tymhorau a'r cynhaeaf.

Diolchwn i Dduw am ein creu ar ei ddelw ei hun.



ARGYFWNG YR HINSAWDD



Gweithgaredd ymgynnull

Mae pawb ohonon ni wedi gweld protestiadau Chwyldro Difodiant (XR) ar y newyddion, ac wedi clywed Greta Thunberg a phlant ysgol ar draws y byd yn galw arnon ni i weithredu, ond fel Cristnogion, beth ddylen ni wneud mewn ymateb i argyfwng yr hinsawdd? Sut dylem ni ymateb i'r bygythiad dirfawr hwn, a sut gallwn ni sicrhau bod eraill yn gweithredu gyda ni? Ddylen ni fod yn barod i gael ein harestio am yr hyn rydyn ni'n ei gredu, os yw'r achos yn un cyfiawn? Go brin byddai newidiadau hollbwysig fel hawl benywod i bleidleisio yn y Deyrnas Unedig neu'r ddeddfwriaeth sydd gennym ni yng Nghymru o ran y Gymraeg wedi dod i rym oni bai bod pobl yn barod i gael eu harestio a dioddef am eu gweithredoedd.



Darllen y Gair

Salm 24:1

'Eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo.' (Beibl Cymraeg Newydd)

Y Flwyddyn Sabothol

Lefiticus 25:1–5

Llefarodd yr ARGLWYDD wrth Moses ar Fynydd Sinai, 'Dywed wrth bobl Israel, "Pan ewch i mewn i'r wlad yr wyf yn ei rhoi ichwi, y mae'r wlad i gadw Saboth i'r ARGLWYDD. Am chwe blynedd byddwch yn hau eich meysydd, ac am chwe blynedd yn tocio eich gwinllannoedd ac yn casglu eu ffrwyth; ond ar y seithfed flwyddyn bydd y wlad yn cael Saboth o orffwys, sef Saboth i'r ARGLWYDD, ac nid ydych i hau eich meysydd nac i docio eich gwinllannoedd. Nid ydych ychwaith i fed'i'r cynhaeaf a dyfodd ohono'i hun, nac i gasglu grawnwin oddi ar winwydd heb eu tocio; y mae'r wlad i gael blwyddyn o orffwys." ' (Beibl Cymraeg Newydd)

Munud i feddwl

Beth yw ystyr bod yn 'stiward' ar y ddaear? Fel Cristnogion, rydyn ni'n credu bod Duw wedi rhoi rôl arbennig i ni – sef gofalu am y ddaear a phopeth sydd ynddo. Er bod y sefyllfa ddelfrydol a ddarluniwyd yng ngardd Eden wedi'i chwalu, mae ein rôl yn gofalu am y ddaear yn parhau. Ond Duw biau'r ddaear, nid ni. Nid ein rôl ni fel stiwardiaid yw gwneud fel y mynnwn, heb ystyried canlyniadau ac effaith ein gweithredoedd. Fel y gwelwn yn y darn o Lefiticus, ddylen ni ddim camddefnyddio'r hyn a roddwyd i ni – mae angen i'r ddaear orffwys hefyd. Petai rhywun yn gofyn i ni ofalu am eu tŷ a'u hanifeiliaid anwes, mae'n siŵr y bydden ni'n ofalus iawn ein bod ni'n gadael popeth mewn cyflwr da a'r anifeiliaid yn fodlon eu byd, yn barod iddyn nhw ddychwelyd. On'd yw hi gymaint yn bwysicach felly, o ystyried bod Duw wedi rhoi'r ddaear yn ein gofal, ein bod ni'n gofalu amdani'n gyfrifol ac yn trin y blaned, pob creadur a'n cymdogion ar draws y byd â pharch?



Yn ei gylchlythyr dylanwadol, *Laudato si*, mae'r Pab Francis yn pwysleisio bod angen i Gristnogion sylweddoli bod eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau yng nghyswllt byd natur a'r Creawdwr yn rhan annatod o'u ffydd. Mae hefyd yn ein hatgoffa bod ecoleg a chymdeithaseg ynghlwm wrth ei gilydd, a bod rhaid i ninnau sylweddoli hynny; rhaid i gyfiawnder fod yn rhan o unrhyw drafodaethau am yr amgylchedd oherwydd fel bob amser, y tlawd sy'n dioddef fwyaf pan fyddwn ni'n hunanol.

Ond i ba raddau mae'r dinistr rydyn ni'n ei achosi yn digwydd oherwydd ein bod ni'n ddifeddwl, yn hytrach na'n bod ni'n bwriadu achosi niwed? Yn aml rydyn ni'n anymwybodol o ganlyniadau ein gweithredoedd, neu'n anfodlon eu hwynebu. Neu efallai weithiau ein bod ni'n wir yn credu ein bod ni'n gwneud y peth iawn, oherwydd ein bod ni'n methu gweld y darlun llawn. Er enghraifft, efallai ein bod ni'n teimlo bod darparu gwaith a chynhyrchu cynydau bob amser yn beth da. Gall hynny fod yn wir mewn llawer o achosion, ond nid lle mae'n golygu bod fforestydd yn cael eu torri i lawr a chynefinoedd naturiol yn cael eu difa er mwyn creu tir ffermio. Mae dyletswydd arnon ni i feddwl ac ystyried, ac i ymdrechu i'n haddysgu ein hunain er mwyn gallu gweithredu gydag ymwybyddiaeth lawn o'r canlyniadau yn y tymor byr a'r tymor hir.

Gweddi

Dduw ein Creawdwr

Edrychwn mewn rhyfeddod ar harddwch a cheinder dy greadigaeth. Pan welwn holl amrywiaeth dy greaduriaid, a'r patrymau sy'n gwau trwy bob rhan o fyd natur, rhyfeddwn o'r newydd at dy waith. Maddau i ni am fod mor ddi-hid ynghylch eich hamgylchedd a'r creaduriaid rydyn ni'n dinistrio eu cynefin er mwyn cyflawni ein dibenion ein hunain. Helpa ni i ddeall y rôl sydd gennym i'w chwarae wrth feithrin a gofalu am yr hyn a greaist yn dy gariad.

Amen



Cân

'Glendid maith y cread, syndod ei ddieithrwch'

W. T. Pennar Davies (*Caneuon Ffydd* 123)

Gwneud

Un o'r ychydig bethau cadarnhaol sydd wedi deillio o bandemig Covid-19 yw manteision amgylcheddol amlwg y cyfnodau clo ar draws y byd. Beth petai modd i ni adeiladu ar hynny a defnyddio tystiolaeth y misoedd hynny yn 2020 i sicrhau ein bod ni, yn hytrach na dychwelyd at 'normalrwydd' anghynaliadwy ein bywydau cyn y pandemig, yn ymdrechu i sicrhau ffordd newydd, fwy gwyrdd o fyw? Ydy hon yn sefyllfa arall lle mae perygl i ni deimlo na fydd dim a wnawn ni yn gwneud gwahaniaeth, felly pam trafferthu? Os felly, rhaid i ni atgoffa'n hunain bod angen i bawb wneud rhywbeth, os ydyn ni am unioni'r cam. Nid rhoi'r cyfan yn nwylo ychydig yw'r ateb.

Un o'r pethau fu o gymorth yn ystod y pandemig oedd bod allyriadau'n gostwng wrth i filoedd o geir aros yn eu hunfan am wythnosau. Ffactor arall hanfodol yw ffynhonnell yr ynni rydyn ni'n ei ddefnyddio. Allech chi newid i ffynonellau ynni adnewyddadwy – yn eich cartref, neu ar gyfer eich car? I ba raddau rydych chi'n ystyried o ble mae'r bwyd rydych chi'n ei brynu yn dod? Os nad ydych chi'n teimlo bod troi'n llysieuwr neu'n fegan yn ymarferol, nac o bosib yn rhywbeth i'w ddymuno, mae llawer o newidiadau posibl i'ch arferion bwyta a phrynu a fyddai'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Ochr yn ochr â'r rhain, rhaid i ni beidio â dibrisio pwysigrwydd protestio a lobïo os ydyn ni am weld newid yn digwydd yn ddigon cyflym ar lefel genedlaethol neu ryngwladol.



Gweddi

Arglwydd Dduw

Rho i ni ddewrder i gychwyn y newid sy'n angenrheidiol i drwsio'r difrod a achoswyd gan ein camgymeriadau yn y gorffennol.

Rho i ni weledigaeth i estyn y newid hwnnw ar draws ein cymunedau.

Rho i ni obaith i gredu bod modd i ni a phobl eraill ar draws y byd ddod at ein gilydd i weithredu, er mwyn unioni'r cam a dechrau adfywio'r ddaear.

Amen

Rhannu

Mae ymateb i argyfwng yr hinsawdd yn gyfrifoldeb mae pawb ohonon ni'n ei rannu, beth bynnag yw ein cefndir neu ein cred. Fel Cristnogion, gellid dadlau bod ein cyfrifoldeb yn fwy fyth, ond mae pryderon amgylcheddol yn cynnig llawer o dir cyffredin i ymuno ag eraill yn ein cymuned i weithredu.

Fel y gwelwn ni yn y newyddion, mae pobl ifanc wedi ymateb yn arbennig o gryf i argyfwng yr hinsawdd. Beth gallwn ni wneud i weithio gyda phlant yn ein teuluoedd, yn ein cynulleidfaoedd neu yn yr ysgolion o'n hamgylch er mwyn gweithredu ar y cyd? Unwaith eto, gallwn ni gychwyn prosiectau sydd â chysylltiad agos â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r targedau y cytunwyd arnynt ar draws yr holl genhedloedd. Amser cyfyngedig sydd gennym i weithredu, felly awn ati i groesi ffiniau ac annog ein gilydd i newid ein hymddygiad er lles ein planed.



COVID-19

Gweithgaredd ymgynnull

Meddylwch am eich profiadau yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19. Sut roeddech chi'n teimlo yn ystod y sefyllfa ddigynsail hon? Oeddech chi'n teimlo'n ofnus, yn rhwystredig, neu'n isel? Neu efallai eich bod chi'n un o'r bobl oedd yn teimlo rhyddhad wrth gael aros gartref a gadael i'ch bywyd arafu tipyn? Trafodwch gydag eraill pa agwedd ar y sefyllfa oedd yn achosi'r anhawster mwyaf i chi. Beth oedd y manteision annisgwyl? Oes yna bethau byddwch chi'n dal i'w gwneud mewn ffordd wahanol, hyd yn oed pan fydd bywyd yn dychwelyd i ryw lun ar normalrwydd?

Darllen y Gair

Mathew 6: 25–34

Am hynny rwy'n dweud wrthyh, peidiwch â phryderu am eich bywyd, beth i'w fwyta na'i yfed, nac am eich corff, beth i'w wisgo; onid oes mwy i fywyd rhywun na bwyd, a mwy i'w gorff na dillad? Edrychwch ar adar yr awyr: nid ydynt yn hau nac yn medi nac yn casglu i ysguboriau, ac eto y mae eich Tad nefol yn eu bwydo. Onid ydych chi yn llawer mwy gwerthfawr na hwy? P'run ohonoch a all ychwanegu un funud at ei oes trwy bryderu? A pham yr ydych yn pryderu am ddillad? Ystyriwch lili'r maes, pa fodd y maent yn tyfu; nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu. Ond rwy'n dweud wrthyh, nid oedd gan hyd yn oed Solomon yn ei holl ogoniant wisg i'w chymharu ag un o'r rhain. Os yw Duw yn dilladu felly laswellt y maes, sydd yno heddiw ac yfory yn cael ei

daflu i'r ffwrn, onid llawer mwy y dillada chwi, chwi o ychydig ffydd? Peidiwch felly â phryderu a dweud, 'Beth yr ydym i'w fwyta?' neu 'Beth yr ydym i'w yfed?' neu 'Beth yr ydym i'w wisgo?' Dyna'r holl bethau y mae'r Cenhedloedd yn eu ceisio; y mae eich Tad nefol yn gwybod fod arnoch angen y rhain i gyd. Ond ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a rhoi y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi. Peidiwch felly â phryderu am yfory, oherwydd bydd gan yfory ei bryder ei hun. Digon i'r diwrnod ei drafferth ei hun. (Beibl Cymraeg Newydd)

Munud i feddwl

Ydy COVID-19 wedi gwneud i chi edrych ar y byd mewn ffordd wahanol? Mae'r pandemig hwn yn wir yn digwydd ar lefel fyd-eang, ac mae'r holl gysylltiadau rhyngom wedi'n gwneud yn fwy bregus yn wyneb y bygythiad anweledig hwn, wrth i ni deithio o un wlad i'r nesaf a mynd â'r feirws gyda ni. Ond ar yr un pryd, gallwn ni weld manteision cydweithio rhyngwladol ar draws ffiniau a gwledydd. Mae pawb ohonon ni'n chwilio am ateb, a gallwn ni ddysgu o ymatebion, llwyddiannau a methiannau pobl eraill, os ydyn ni'n barod i rannu a gwrando.

Serch hynny, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae bywyd beunyddiol llawer ohonon ni wedi bod yn digwydd mewn byd llai, wrth i bron ein holl weithgareddau ddod i ben. Buon ni'n troi yng nghylch ein tŷ, neu ein tref, neu ambell le lleol i fynd am dro. Fuo chi'n teimlo'r cyferbyniad yn eich ymateb i'r sefyllfa? Oeddech chi'n hiraethu am ryddid i fynd i weld teulu/ffrindiau, neu fynd i lan y môr – ac eto ar yr un pryd yn gwerthfawrogi diogelwch eich cartref, yn sylwi ar blanhigion yn yr ardd na welsoch chi erioed mohonyn nhw'n blodeuo o'r blaen, yn clywed mwy o adar yn canu, ac yn ymdrin yn ofalgar â'ch cymdogion a'ch ffrindiau i weld oedden nhw'n ymdopi neu oedd angen help arnyn nhw. Emosiynau'n gwau drwy'i gilydd blith-draphlith – tristwch, dicter, ofn, derbyn y sefyllfa a theimlo'n euog oherwydd ein bod ni'n methu bod yn ddiolchgar am yr hyn sydd gennym ni yn hytrach na chanolbwytio ar yr hyn sydd ddim ar gael.

Er bod pawb ohonon ni'n gyfarwydd â'r geiriau yn yr efenngyl sy'n dweud wrthyn ni na ddylen ni bryderu, i lawer ohonom, haws dweud na gwneud yw hi! Efallai mai un o'r pethau anoddaf i chi oedd peidio â gwybod pryd bydd 'bywyd normal' yn dychwelyd. Os ydych chi'n hoffi blaengynllunio a rhoi trefn ar eich bywyd, mae sefyllfa lle does dim modd gwybod pryd cewch chi ymweld â'ch teulu, mynd i'r gwaith neu gynllunio gwyliau yn heriol, â dweud y lleiaf! Ond mae'n ein hatgoffa hefyd fod cymaint o'r hyn rydyn ni'n pryderu yn ei gylch yn ddibwys yn y pen draw. Does neb ohonon ni byth yn wir yn gwybod beth fydd yn digwydd, a gall cynlluniau manwl gael eu sgubo o'r neilltu ar amrantiad, mewn ffyrdd na fydden ni byth wedi gallu eu rhagweld. Felly mae'n gyfle i ni, os gallwn ni fentro gwneud hynny, ollwng gafael a cheisio ymddiried yn fwy yn Nuw. Wyddon ni ddim beth fydd ein dyfodol ni na'n planed, na pha ran fydd i ninnau yn y stori honno, ond rydyn ni yn gwybod bod Duw yn ein caru ac yn gofalu amdanom, a'i fod bob amser yno, beth bynnag fydd yn digwydd i ni yn ein bywydau.





Gweddï

Arglwydd Dduw

Helpa ni i ymddiried ynot ti. Helpa ni i sylweddoli bod pawb ohonon ni'n gorfod ymdrechu mewn gwahanol ffyrdd, ond ein bod ni'n gallu cynnal ein gilydd, a'th fod di yno ar gyfer pob un ohonon ni, a hynny bob dydd yn ddi-ffael. Pan fydd bywyd yn ein llethu, helpa ni i gofio ein bod ni ddim ar ein pennau ein hunain, a bod dy gariad di o'n cwmpas bob amser.

Amen

Cân

'I ddyddiau'r glanio ar y lloer'

R. Gwilym Hughes (*Caneuon Ffydd* 806)

Gwneud

Yn ogystal â'r holl heriau eraill, mae COVID-19 hefyd yn ein hatgoffa pa mor anghyfartal ydyn ni. Wrth gwrs, gall unrhyw un ddal y feirws, ond dim ond os bydd lle gennych chi y gallwch chi gadw pellter cymdeithasol. Beth os yw eich cartref yn orlawn, neu eich bod chi mewn gwersyll ffoaduriaid? Beth os ydych chi wedi colli eich swydd ac yn dibynnu ar eraill i fedru bwydo'ch teulu? Beth gallwn ni wneud yn ymarferol i helpu'n gilydd?



Nawr ac yn y dyfodol – gadewch i ni fanteisio ar y cyfle fel cymuned, fel gwlad, ac ar y cyd â gwledydd eraill ar draws y byd i newid ein ffordd o fyw a chryfhau ein perthynas â'n gilydd, gan frwydro i ddileu'r anghydraddoldeb mae'r argyfwng hwn wedi'i amlygu. Efallai gallwn ni gyfrannu at un o'r elusennau sy'n gweithio gyda phobl fwyaf bregus y byd i'w helpu i ymdopi â'r bygythiad newydd hwn, ond hefyd i weithio gyda nhw i newid eu hamgylchiadau yn y tymor hir. Neu efallai gallwn ni wneud rhywbeth yn nes adre, trwy helpu rhywun sy'n llai abl i ymdopi yn ein stryd neu ein tref ein hun. Pan fydd y pandemig dan reolaeth, mae angen i ni barhau i adeiladu ar yr ymdeimlad dyfnach o gymuned a gafwyd, a sicrhau bod gan aelodau gwannaf ein cymuned rywle i droi, ac nad ydyn nhw'n cael eu hanghofio eto pan fydd argyfwng y cyfnod hwn wedi mynd heibio. Does dim rhaid i'r cymorth a roddwch fod yn ariannol – er y bydd angen hynny ar rai – gall fod mor syml â chodi'r ffôn i gael sgwrs, neu helpu rhywun i wneud eu siopa.

Gweddi

Arglwydd Dduw

Diolch i ti am garedigrwydd sy'n cael ei rannu rhwng ffrindiau ac ymhlith dieithriaid: sgwrs gefnogol, rhannu'r hyn sydd gennym, mynd ar neges i rywun bregus, neu roi o'n hamser i wrando. Helpa ni i gofio bod pawb yn wahanol, a'n bod ni i gyd yn delio ag anawsterau a newid yn ein ffyrdd ein hunain. Helpa ni i weld o dan yr wyneb a chymryd amser i ddarganfod beth gallwn ni ei wneud dros eraill.

Amen

Rhannu

Ydych chi'n gwneud unrhyw beth fel grŵp eglwys i gefnogi eich cymuned leol? Ydych chi wedi creu cysylltiadau â'ch banc bwyd lleol neu wasanaethau cymunedol eraill i helpu i sicrhau bod rhywun sy'n wynebu trafferthion, am ba reswm bynnag, yn gallu galw am help? Beth am roi galwad i gymydog neu ffrind rydych chi heb siarad â nhw ers meitin, i ddangos gofal ac i'w hatgoffa eich bod chi ar gael i helpu, os bydd angen? Beth os bydd angen help arnoch chi eich hunan? Mae'n bwysig rhoi gwybod i eraill, er mwyn iddyn nhw gael cyfle i'ch cefnogi.

NODAU DATBLYGU CYNALIADWY Y CENHEDLOEDD UNEDIG

Gweithgaredd ymgynnull

Ydych chi wedi clywed am Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig?

Bwriad yr 17 nod yma yw tynnu sylw at y meysydd lle mae angen gweithredu fwyaf ar draws y byd, ac mae 193 o wledydd wedi ymrwymo i fynd i'r afael â nhw. Mae yna dargedau heriol i'w cyrraedd erbyn 2030 – ond oes digon yn cael ei wneud? Ydy pobl yn gwybod amdany'n nhw? Edrychwch ar yr 17 nod a thrafod pa rai rydych chi'n uniaethu fwyaf â nhw. <https://sustainabledevelopment.un.org/?menu=1300> Ydy rhai ohonyn nhw'n bwysicach nag eraill? Neu oes cysylltiad rhwng pob un ohonynt a'i gilydd mewn rhyw ffordd?



Darllen y Gair

Offrwm y Weddw

Luc 21:1–4

Cododd ei lygaid a gweld pobl gyfoethog yn rhoi eu rhoddion i mewn yng nghist y drysorfa. Yna gwelodd wraig weddw dlawd yn rhoi dau ddarn bychan o bres ynddi, ac meddai, 'Yn wir, rwy'n dweud wrthyfch fod y weddw dlawd hon wedi rhoi mwy na phawb. Oherwydd cyfrannodd y rhain i gyd o'r mwy na digon sydd ganddynt, ond rhoddodd hon o'i phrinder y cwbl oedd ganddi i fyw arno.' (Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig)

Munud i feddwl

Fyddwch chi'n teimlo weithiau bod problemau'r byd fel tlodi, newyn a'r newid yn yr hinsawdd yn rhy fawr i'w datrys? Ydych chi erioed wedi meddwl, 'Does dim ots beth wna'f fi, alla i ddim gwneud gwahaniaeth?' Mae'n hawdd digalonni, neu adael i rywun arall wneud rhywbeth, ond mae'n bwysig cofio bod gan bawb ohonon ni ran i'w chwarae, a bod cyfraniad y gallwn ni ei wneud, hyd yn oed os yw'n fach iawn. Rydyn ni i gyd yn gyfarwydd â hanes offrwm y weddw. Ar ei ben ei hun, doedd ei chyfraniad ddim yn mynd i gyflawni llawer o ran cynnal a chadw'r deml, ond gwir werth ei rhodd oedd y weithred ei hun: ei hysbryd haelionus, ei diffyg consyrn amdani ei hun a'i hawydd i weithredu hyd yn oed pan oedd hynny'n costio iddi hi'n bersonol. Er bod cyfraniad ariannol y bobl gyfoethog yn ddefnyddiol, roedden nhw'n gallu rhoi arian heb unrhyw aberth personol, ac mae'n bosib eu bod nhw'n ceisio ymffrostio trwy ddangos pa mor gefnog oedden nhw. Mae gwerth ein gweithredoedd ninnau yn llygaid Duw yn cael ei fesur yn erbyn gwybodaeth am ein hamgylchiadau a'n galluoedd. Dydyn ni ddim i gyd yr un fath, ac mae Duw yn gwerthfawrogi pob offrwm didwyll, pa mor fach neu ddi-nod bynnag mae'n ymddangos.

Hefyd, gallai eich gweithred chi ysbrydoli rhywun arall i weithredu. Gallai gweld bod rhywun arall yn barod i wneud rhywbeth fod yn anogaeth neu'n ysbrydoliaeth iddyn nhw.



Ydych chi wedi ystyried bod angen weithiau i chi wneud eich bywyd eich hun yn llai cyfleus er mwyn sicrhau lles eraill neu'r amgylchedd? Nid mater o arian yw hyn o reidrwydd, ond camau eraill y gallwn ni eu cymryd. Mae'n rhaid i ni fod yn barod i weithredu hyd yn oed os yw hynny'n anodd i ni ac yn gallu achosi anhawster yn ein bywydau ninnau – os yw rhywbeth yn wirioneddol bwysig i ni, dylen ni fod yn meddwl am eraill yn fwy na'n hunain. Enghraifft o hynny fyddai gwario mwy ar rywbeth rydyn ni'n ei brynu er mwyn sicrhau bod y sawl a'i cynhyrchodd yn cael cyflog teg, neu ddewis bwyta llai o gig er ein bod ni'n ei fwynhau, oherwydd ein bod ni'n deall y manteision amgylcheddol.

Gweddi

Arglwydd Dduw,

Rwy'ti'n gweld beth sy'n guddiedig i eraill ac yn gwybod holl fwriadau ein calonnau.

Helpa ni i ystyried eraill yn fwy na'n hunain bob amser a chwarae ein rhan i wneud y byd a roddaist i ni yn lle cyfiawn a theg.

Helpa ni i ddilyn esiampl Iesu a chofio nad oes unrhyw weithred wirioneddol hael yn ddibwys yn dy olwg.

Amen

Cân

'Anfonodd Iesu fi'

Emyn traddodiadol o Giwba, cyf. Jorge Maldonado a Meurwyn Williams (*Caneuon Ffydd 866*)

Gwneud

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o broblemau mawr y byd ac anghyfiawnder neu anghydraddoldeb yn y system, mae angen i bob un ohonon ni godi llais, yn hytrach na derbyn pethau fel y maent. Gall rhoi arian i helpu pobl mewn angen fod yn ddefnyddiol, ac yn angenrheidiol yn y tymor byr, ond yn y tymor hir yr unig ffordd ymlaen yw eiriolaeth i newid systemau a strwythurau fel eu bod yn fwy cyfiawn yn gymdeithasol. Gall pob un ohonon ni wneud rhywbeth, a chodi'n lleisiau gydag eraill i frwydro dros newid.



I weld rhai camau syml pob dydd y gallech eu cynnwys yn eich bywyd beunyddiol dilynwch y ddolen ganlynol: <https://www.un.org/en/actnow/>

Meddylwch am eiliad, beth petai pob unigolyn ym mhob un o'r 193 gwlad yn gweithredu ac yn gwneud un peth yn unig? Gadewch i ni gydweithio'n lleol ac yn fyd-eang i wneud yn fawr o'n holl gyfraniadau bach unigol a dechrau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ein byd.

Rhannu

Gallwch chi ddechrau gweithredu fel teulu, gyda grŵp yn eich eglwys, neu gyda grŵp o ffrindiau eraill. Gallai eich gweithred fod yn newid cadarnhaol rydych chi'n ei wneud yn eich arferion pob dydd a fydd o les ehangach, neu gallai fod yn brosiect rydych chi'n ei gychwyn er mwyn ymateb i un o'r nodau, efallai gydag ysgol leol neu grŵp arall yn y gymuned, neu gallech chi ysgrifennu at eich AS neu gychwyn deiseb ynghylch newid sy'n angenrheidiol. Gallai eich gweithred gychwyn fel rhywbeth rydych chi a rhai ffrindiau yn ei wneud, cyn tyfu i fod yn rhywbeth mae eich eglwys yn mabwysiadu, ac efallai eglwysi eraill hefyd, a chyn hir, byddwch chi'n rhan o rywbeth llawer mwy, a bydd y posibilrwydd o gyflawni newid yn tyfu hefyd.

Gweddi

Arglwydd ein Duw

Rwyt ti wedi creu'r byd a phawb ohonon ni sydd ynddo. Helpa ni i gydweithio ar draws cymunedau ac ar draws cenhedloedd a ffiniau i ddatrys y problemau rydyn ni wedi eu hachosi trwy beidio â gofalu am dy blaned a'n cymdogion.

Helpa ni i weld yn glir sut gallwn ni weithredu er lles pawb ac i gofio bod pawb ohonon ni'n gyfartal yn dy olwg di.

Amen

DYLED

Gweithgaredd ymgynnull

Beth yw eich diffiniad chi o dlodi? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng tlodi absoliwt a thlodi cymharol? Er bod cryn dipyn o gynydd wedi digwydd yn ystod y degawdau diwethaf o ran lleihau nifer y bobl yn y byd sy'n byw mewn tlodi absoliwt, mae anghydraddoldeb a thlodi cymharol yn dal yn broblemau aruthrol mewn llawer o wledydd, gan gynnwys gwledydd Prydain, fel y gwelir o nifer y bobl sy'n gorfod defnyddio banciau bwyd ac yn cael trafferth talu am y pethau mae arnyn nhw a'u teuluoedd eu hangen.

Darllen y Gair

Ecsodus 22: 25–27

Pan fenthyci arian i unrhyw un o'm pobl sy'n dlawd yn plith, paid ag ymddwyn tuag ato fel y gwna'r echwynnwr, a phaid â mynnu llog ganddo. Os cymeri fantell dy gymydog yn wystl, yr wyt i'w rhoi'n ôl iddo cyn machlud haul, oherwydd dyna'r unig orchudd sydd ganddo, a dyna'r wisg sydd am ei gorff; beth arall sydd ganddo i gysgu ynddo? Os bydd yn galw arnaf fi, fe wrandawaf arno am fy mod yn drugarog. (Beibl Cymraeg Newydd)

Mathew 5:42

Rho i'r sawl sy'n gofyn gennyt, a phaid â throi i ffwrdd oddi wrth y sawl sydd am fenthyci gennyt. (Beibl Cymraeg Newydd)



Munud i feddwl

Ydych chi erioed wedi pryderu am arian?

Fel Cristnogion, rydym ni'n cael ein hannog i beidio â chanolbwyntio'n ormodol ar arian a phethau materol, ond pan fyddwch chi'n brin o arian, mae'n gallu bod yn anodd meddwl am unrhyw beth arall. Mae'n arbennig o anodd os ydych chi'n methu bwydo eich hunan, na darparu ar gyfer eich teulu, ond mae hefyd yn anodd os ydych chi'n methu cael pethau mae eraill o'ch cwmpas yn eu cymryd yn ganiataol, neu os ydych chi'n methu fforddio mynd i ddigwyddiadau mae pawb arall rydych chi'n eu hadnabod yn gallu mynd iddyn nhw.

Gall newid mewn amgylchiadau, fel bod yn ddi-waith, neu'n sâl ac yn methu gweithio, olygu ei fod yn amhosib talu am bethau angenrheidiol. Efallai mai o'r braidd mae rhywun yn ennill digon i dalu am anghenion beunyddiol, a bod costau annisgwyl, fel bil i drwsio'r car, yn eu gwthio i ddyled. Wrth gwrs, gall dyled ddigwydd hefyd trwy wario gormod ar bethau diangen, ond gan ein bod ni'n byw mewn cymdeithas sy'n rhoi cymaint o bwyslais ar gydymffurfio a bod â'r pethau cywir i ffitio i mewn gyda phawb arall, ddylen ni ddim bod yn rhy gyflym i feirniadu. Beth bynnag yw'r achos gwaelodol, mae dyled yn broblem anferth i lawer o bobl, ac mae'n gallu creu pryder ac anobaith, yn enwedig pan fydd torri'r cylch yn ymddangos yn amhosib, neu pan fydd pwysau i dalu'n ôl cyn bod modd gwneud hynny. Does dim syndod bod rhai yn troi mewn anobaith at fenthycwyr diegwyddor, ac o ganlyniad yn wynebu llog arswydus o uchel a dyled a all rwymo am oes.

Yn y cyfnod diweddar, mae pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau ychwanegol ar lawer o deuluoedd a oedd eisoes mewn tlodi, ac mae'r nifer sydd mewn dyled hefyd wedi cynyddu o ganlyniad i hynny, fel mae gwaith ymchwil cyrff fel Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) eisoes wedi dangos.

Pa effaith rydych chi'n meddwl byddech chi'n ei theimlo ar eich bywyd petaech chi'n byw mewn gwlad oedd â dyledion enfawr? Mae llawer o'r gwledydd sy'n datblygu yn y byd yn dal i dalu dyledion mawr i wledydd mwy cyfoethog, ac mae hynny'n cael effaith ar eu gallu i fforddio anghenion beunyddiol eu pobl. Oes modd cyfiawnhau'r safbwynt bod rhaid ad-dalu dyledion, weithiau gyda lefel uchel o log, pan fydd hynny'n effeithio ar ofal iechyd, addysg neu hawliau dynol sylfaenol eraill? Mae dameg Iesu am y gweision oedd mewn dyled, Mathew 18:21–35, yn dangos pwysigrwydd tosturi yn ein hymwneud ag eraill.

Gweddi

Arglwydd ein Duw

Helpa ni i weld y gall fod ffyrdd o ddatrys problemau sy'n ymddangos yn ormod i ni. Mae'n gallu bod yn anodd cyfaddef bod angen help arnon ni; helpa ni i drechu ein balchder a'n hofn, a gadael i eraill ein cynnal pan fyddwn ni mewn trafferthion.

Amen

Cân – 'O na bawn yn fwy tebyg'

Eleazar Roberts (*Caneuon Ffydd* 721)

Gwneud

Os ydych chi, neu rywun rydych chi'n eu hadnabod, mewn dyled ac yn methu gweld ffordd allan, mae yna sefydliadau fel Christians Against Poverty sy'n gallu helpu. Y cam cyntaf yw wynebu'r ffaith bod yna broblem. Os gallwch chi ddechrau cydnabod y broblem a gofyn am help, fe gewch hyd i ffordd o wella eich sefyllfa. Gall fod yn anodd penderfynu sôn wrth rywun arall eich bod mewn dyled, ond mae'n bwysig cofio y gall hynny ddigwydd i unrhyw un – dyw'r ffaith eich bod chi'n cael trafferth ymdopi ar hyn o bryd ddim yn golygu bod llai o werth i chi fel person.



Os ydych chi'n ddigon ffodus i fod heb bryderon ariannol, ac yn awyddus i helpu gyda'r broblem arbennig hon, beth am gyfrannu at sefydliad sy'n canolbwyntio ar ddyled? Beth os oes rhywun mewn trafferthion yn eich teulu chi? Meddyliwch am sut byddech chi'n ymateb petai rhywun yn gofyn yn uniongyrchol i chi am help, neu petaech chi'n gallu gweld bod angen help arnyn nhw. Fyddech chi'n hael ac yn cydymdeimlo? Sut gallech chi helpu heb fod yn nawddoglyd neu wneud i'r person rydych chi'n ei helpu deimlo'n israddol?

Hefyd gallech chi ystyried ymuno ag ymgyrchoedd i ddileu dyledion gwledydd sy'n datblygu. Ar droad y mileniwm llwyddodd Ymgyrch y Jiwbilî i leihau dyledion rhai gwledydd tlawd, ond mae ymgyrchoedd o'r fath yn bwysicach nag erioed nawr ers dyfodiad Covid-19 a'r pwysau ychwanegol ar economïau ar draws y byd. Os yw gwledydd datblygedig, hyd yn oed, yn gorfod benthyg symiau aruthrol i ddelio gyda'r argyfwng, sut bydd gwledydd sy'n datblygu yn ymdopi pan fo ganddyn nhw gyn lleied i ddechrau?



Rhannu

Os nad yw eich eglwys yn ymwneud â hyn eisoes, gallech chi ystyried gweithio gyda chorff fel Christians Against Poverty i helpu i roi'r gair ar led yn eich cymuned am y cymorth sydd ar gael i unigolion mewn dyled. Efallai bydd cyfle hefyd i roi cyhoeddusrwydd i sefydliadau fel Undebau Credyd, sy'n gallu helpu pobl a fu mewn anawsterau ariannol i gynilo a chael benthyg arian. Gallai clywed rhywun yn sôn am yr opsiynau sydd ar gael, a strategaethau sy'n gallu helpu i fynd i'r afael â'r problemau, fod yn gam cyntaf hollbwysig i rywun tuag at yr help mae arnyn nhw ei angen. Ffordd arall i'ch eglwys weithredu fyddai annog yr aelodau i ymweld â gwefan Reset the debt a manteisio ar y cyfleoedd a geir yno i roi pwysau ar y llywodraeth i gefnogi pobl yn y Deyrnas Unedig sydd wedi mynd i ddyled oherwydd Covid-19.

Hefyd mae Cymorth Cristnogol wedi ymateb i bandemig y Coronafeirws trwy ymgyrchu i ddileu dyledion mewn gwledydd sy'n datblygu ar sail egwyddor y Jiwbilî (Lefiticus 25: 8-10). Cewch ragor o fanylion, a chyfle i gefnogi ymgyrch Dileu'r Dyled (Cancel the Debt) ar eu gwefan.

Gweddi

Arglwydd ein Duw

Helpa ni i ddangos ein cariad at gymdogion trwy ddangos tosturi pan fyddan nhw mewn anhawster. Helpa ni i barhau i weithio i wneud ein cymdeithas a'n byd yn lle tecach, mwy cyfartal i bawb.

Amen